

CYFLWYNIAD

Fel yn achos unrhyw system da byw lwyddiannus, mae'n hanfodol rhoi sylw i iechyd a lles ceirw fferm. Ar y cyfan mae ceirw yn anifeiliaid iach iawn. Ond yn sgil dulliau ffermio dwys a'r dwyseddau stoc uwch sy'n gysylltiedig â magu ceirw, mae'r risg o afiechyd yn effeithio ar y ceirw yn uwch. Erbyn hyn mae afiechydon sy'n gyffredin mewn meysydd cynhyrchiant da byw eraill i'w canfod mewn ceirw fferm. Mae hyn yn golygu bod rheolaeth a gofal da yn hanfodol drwy gydol y flwyddyn er mwyn diogelu iechyd a lles y ceirw.

RHEOLAETH YN Y GWANWYN A'R HAF


Caiff yr elanedd eu geni ddiwedd Mai/Mehefin a hynny'n naturiol fel arfer heb fod angen fawr ddim cymorth. Mae anawsterau geni yn brin ac yn digwydd mewn rhyw 1% o achosion yn unig. Rhaid gofalu nad yw'r ewigod yn mynd yn rhy dew erbyn diwedd Mai pan roddir porthiant o ansawdd da iddynt neu gyfle i bori ar borfa gynnar. Mae perygl y gall ewigod rhy dew gael trafferthion wrth eni.

Mae parasitiaid yn fygythiad i geirw fferm i gyd, yn enwedig llyngyr yr ysgyfaint a'r perfeddion, y bydd ceirw yn eu cael wrth bori ar borfa heintiedig. Llyngyr yr ysgyfaint sy'n achosi'r rhan fwyaf o farwolaethau ar ffermydd ceirw o hyd ac felly'r unig driniaeth reolaidd a roddir i geirw fferm yw dilyngyru'r stoc ifanc.

Byddai rhaglen ddilyngyru addas gyda moddion gwrthlyngyrol fel Ivermectin yn dilyn y drefn yma:



Ffig 1: Elain



Yn ogystal â thrin y ceirw blwydd, rhaid dilyngyru'r elanedd wrth eu diddyfnu a dylid dilyngyru ewigod a hyddod llawn dwf wrth ddod â nhw i mewn, sy'n digwydd ddiwedd Rhagfyr fel arfer.

RHEOLAETH YN YR HYDREF A'R GAEAF

Fel arfer caiff yr elanedd eu diddyfnu pan fyddant rhwng 12 a 14 wythnos oed. Gall hwn fod yn gyfnod llawn straen i'r ceirw ifanc, sy'n gallu golygu hefyd eu bod yn agored i afiechydon. Gall cyflwyno dwysfwydydd i'w diet cyn eu diddyfnu helpu i leihau'r straen ar yr elanedd; un ffordd o wneud hyn yw gwasgaru'r dwysfwydydd dros ardal helaeth o'r borfa.

Mae rheoli'r ceirw yn hanfodol bwysig yn ystod y gaeaf. Yn wahanol i ddefaid, nid yw ceirw yn ymdopi'n dda gyda'r oerni ac mae amodau gwlyb ac oer yn arbennig o beryglus iddynt gan nad ydynt wedi'u hinsiwleiddio'n dda. Gall rheoli gwael neu ddiffyg paratoi ar gyfer y cyfnod yma arwain at golledion a pherfformiad bridio gwael. Er mwyn osgoi hyn, dylid dod â'r stoc ifanc i mewn cyn dechrau'r gaeaf. Dylid darparu digon o loches ar gyfer yr ewigod neu gellir eu cadw dan do hefyd, yn dibynnu ar amodau pob fferm. Dylai'r ewigod fod mewn cyflwr da ar ddechrau'r gaeaf. Gellir sicrhau hyn trwy eu rhoi i bori glaswellt er y gellir darparu porthiant ategol os oes angen.

DIFFYG MWYNAU

Diffyg copr yw'r diffyg elfen hybrin sy'n digwydd amlaf mewn ceirw fferm gan effeithio ar eu hiechyd a'u perfformiad. Fel arfer bydd diffyg copr yn dod i'r amlwg pan fydd yr anifail yn dechrau siglo wrth gerdded oherwydd bod y coesau ôl wedi'u parlysu'n rhannol. Ffordd syml o osgoi hyn yw rhoi bolws neu drensh fitamin/mwynau i'r anifail.

AFIECHYDON PENODOL

Yn ogystal â phroblemau sy'n gysylltiedig â chynhyrchiant cyffredinol mae nifer cynyddol o afiechydon penodol yn effeithio ar geirw. Mae yersiniois, afiechyd Johne, y diciâu a'r dwymyn gataraidd adwythig (MCF) i gyd yn afiechydon a all effeithio'n ddifrifol ar iechyd a lles pob carw fferm.

- Credir bod yersiniois yn gysylltiedig â straen. Mae'n effeithio ar geirw sydd mewn cyflwr gwael ac sydd wedi bod dan straen wrth gael eu trin, eu cludo neu ar ôl newid eu diet. Mae'r afiechyd yn achosi dolur rhydd a marwolaeth i'r anifeiliaid gwanaf.
- Afiechyd cynyddol cronig mewn ceirw yw afiechyd Johne. Bydd elenydd ifanc yn dal yr afiechyd wrth bori ar borfa wedi'i halogi ond nid oes unrhyw symptomau i'w gweld i ddechrau. Unwaith eto, yn ystod cyfnodau o straen y bydd yr afiechyd yn datblygu i'r pwynt pan ddaw symptomau i'r amlwg. Nid oes unrhyw wellhad i afiechyd Johne a rhaid difa'r anifeiliaid sydd wedi'i ddal. Gellir brechu ceirw rhag yr afiechyd, fodd bynnag.
- Mae'r diciâu ar gynnydd mewn ceirw fferm ac mae'n afiechyd hysbysadwy, sy'n golygu bod yn rhaid dweud wrth DEFRA os ydych yn ei ddarganfod. Mae'r afiechyd yn lledu o un anifail i'r llall drwy gyswllt uniongyrchol, porthiant wedi'i halogi neu ysgarthion. Mae'n afiechyd cronig a bydd y symptomau yn datblygu'n araf. Diffyg ffynnu a nychdod cynyddol yw'r arwyddion cyntaf. Nid oes gwella o'r afiechyd yma a chaiff yr anifeiliaid a effeithir ganddo eu difa.
- Afiechyd sy'n angheuol i geirw yw'r dwymyn gataraidd adwythig (MCF). Ar hyn o bryd dim ond hwnt ac yma y mae'n digwydd yn y Deyrnas Unedig ond mae nifer yr achosion o'r afiechyd wedi cynyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Defaid sy'n lledaenu'r afiechyd, yn enwedig mamogiaid yn ystod y cyfnod wyna, nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion clinigol o'r afiechyd ond sy'n ysgarthu'r firws. Mae hyn yn achosi problemau pan fydd ceirw yn pori ar yr un borfa â defaid.



Ffig 2: Ewig

GWELLA IECHYD A LLES AR FFERMYDD CEIRW

1. Hwsmonaeth dda

Rhaid i hwsmon da allu adnabod arwyddion salwch a straen yn ei geirw. Gall darganfod arwyddion cynnar fel llesgedd, dim awydd bwyd (ac eithrio diffyg archwaeth tymhorol naturiol), methu â chnoi cil a rhedlif o'r trwyn neu'r llygaid gyflymu'r broses o ddarganfod a thrin unrhyw afiechyd. Mae anifeiliaid wedi'u bwydo'n dda, iach, heb fod dan straen yn llai tueddol o gael afiechydon – mae rheoli'r ceirw yn dda yn hanfodol er mwyn sicrhau safonau iechyd a lles da.

2. Cynlluniau iechyd

Mae cynlluniau iechyd yn gwbl hanfodol er mwyn diogelu iechyd a lles ceirw fferm, a dylid eu llunio mewn partneriaeth â'ch milfeddyg. Dylai'r cynllun iechyd nodi'r risg o gyflwyno a lledaenu afiechydon ar eich fferm a sefydlu mesurau i reoli'r risg, a gwella dulliau cyffredinol o atal a rheoli afiechydon. Gall gynnwys rhaglen brofi ar gyfer amrywiol afiechydon hefyd.

3. Bio-ddiogelwch

Bydd bio-ddiogelwch da, yn cynnwys mesurau syml fel gwybod beth yw statws iechyd unrhyw geirw yr ydych yn eu prynu neu'n eu symud, a chadw unrhyw geirw a gludir i mewn / sy'n dychwelyd ar wahân i'r gweddill, yn helpu i atal cyflwyno afiechydon i'r ceirw.

GWYBODAETH BELLACH

British Deer Farmers Association – www.bdfa.co.uk

Veterinary Deer Society – www.vetweb.co.uk/site/deer